# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 24 Mai 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno gwybodaeth i ymchwiliad cyhoeddus yr Arglwydd Morris o Fanceinion, a noddir gan y lleng Brydeinig, ac sy'n ymchwilio i Syndrom Rhyfel y Gwlff. (WAQ36397)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth yw Asesiad Risg Cyngor Gwynedd ar gyfer Harbwr Aberdyfi sy'n cael ei ddosbarthu fel porthladd masnachol. (WAQ36392)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Janice Gregory (Ogwr);** A yw Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi cyflwyno ei his-ddeddfau pysgodfeydd arfaethedig yn ffurfiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cadarnhau, ac os felly:
a) a wnaed penderfyniad ynghylch cadarnhau'r is-ddeddfau hyn fel y cawsant eu hysbysebu, neu ynghylch cynnig gwelliant pellach; a
b) beth yw'r amserlen ar gyfer cadarnhau a gweithredu'r is-ddeddfau arfaethedig. (WAQ36381)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o amser a ddynodwyd i'r Fenter Goedwigaeth ar gyfer ateb ymholiadau ysgrifenedig gan y cyhoedd. (WAQ36391)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** A yw agendâu, cofnodion a phapurau'r cyfarfodydd y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn WAQ35746 ar gael i'r cyhoedd. (WAQ36390)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Sandy Mewies (Delyn);** A all y Gweinidog ddweud wrthyf sawl Ceisiwr Lloches yn Sir y Fflint sy'n cael cymorth ar hyn o bryd gan Gyngor Sir y Fflint. (WAQ36396)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Sawl achos o RSV (Feirws Syncytigol Anadlol) fu ym mhob ymddiriedolaeth GIG yn ystod y 3 blynedd diwethaf. (WAQ36378)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** Faint o fabanod gafodd RSV (Feirws Syncytigol Anadlol) tra oeddent yng ngofal pob ymddiriedolaeth GIG yn ystod y 3 blynedd diwethaf. (WAQ36379)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A all y gweinidog gadarnhau a oes grp wedi'i sefydlu i adolygu canllawiau ar gyfer trin babanod sydd ag RSV (Feirws Syncytigol Anadlol), ac os felly, a fydd y grp yn llunio argymhellion cyn dechrau'r tymor RSV nesaf. (WAQ36380)

**Sandy Mewies (Delyn);** Beth yw'r rheolau sy'n pennu sut y mae Cyffuriau Canser yn cael eu dosbarthu yng Nghymru. (WAQ36393)

**Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a yw’r cyffuriau canser priodol ar gael i’r holl gleifion priodol ar draws Cymru. (WAQ36394)

**Sandy Mewies (Delyn);** A yw’r Gweinidog wedi’i hysbysu gan gorff neu fudiad allanol o unrhyw anawsterau a brofwyd yn rhoi presgripsiwn am Gyffuriau Canser i gleifion yng Nghymru. (WAQ36395)

**Sandy Mewies (Delyn);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo hylendid deintyddol ymhlith rhieni plant ifanc. (WAQ36389)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Pa drefniadau y mae’r Gweinidog yn eu gwneud i sicrhau bod cynlluniau gwarchod cymdogaethau yng Nghymru yn derbyn yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus angenrheidiol ar ôl i’r Swyddfa Gartref atal yr arian ar gyfer Cymdeithas Genedlaethol Cynlluniau Gwarchod Cymdogaethau sy’n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan AXA Insurance UK. (WAQ36371)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Pa fecanweithiau cymorth y mae’r Gweinidog yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau parhad y cynlluniau gwarchod cymdogaethau yng Nghymru. (WAQ36372)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Sut y mae’r Gweinidog yn bwriadu sicrhau darparu deunydd priodol ar gyfer datblygu ac ehangu’r cynlluniau gwarchod cymdogaethau yng Nghymru. (WAQ36373)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’u derbyn ynghylch atal y cymorth gan y Swyddfa Gartref i Gymdeithas Genedlaethol Cynlluniau Gwarchod Cymdogaethau. (WAQ36374)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod arferion gorau'r cynlluniau gwarchod cymdogaethau yng Nghymru yn cael eu lledaenu ledled y wlad. (WAQ36375)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi derbyn copi o'r adroddiad archwilio mwyaf diweddar ynghylch Cymdeithas Genedlaethol Cynlluniau Gwarchod Cymdogaethau ac, os yw, a wnaiff sicrhau bod yr adroddiad ar gael i Aelodau'r Cynulliad. (WAQ36376)

**Mike German (Dwyrain De Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi derbyn eglurhad gan y Swyddfa Gartref ynghylch atal y cymorth ar gyfer Cymdeithas Genedlaethol Cynlluniau Gwarchod Cymdogaethau ac, os yw, a wnaiff hi gyhoeddi'r eglurhad hwnnw. (WAQ36377)